

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Charro, Bwrdd
Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 12 Rhagfyr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mawrth 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4. Y camau nesaf	20
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Charro, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 12 Rhagfyr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 32 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod urddas y cleifion yn cael ei gynnal a'u bod yn cael eu trin â pharch drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd pob claf wrthym fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn'. Gwelsom fod systemau ar waith i reoli apwyntiadau cleifion yn briodol, ac roedd unrhyw achosion o oedi i apwyntiadau yn cael eu cyfleu mewn modd amserol. Nodwyd gennym fod meysydd i'w gwella mewn perthynas â rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith, ond roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y gallai'r cleifion gyfathrebu yn eu dewis iaith lle bynnag y bo'n bosibl. Gwelsom na fyddai unrhyw achos o sarhau cleifion na'r staff yn cael ei oddef.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd adborth y cleifion i holiadur AGIC yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn lân ac yn drefnus, a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod y cyfarpar mewn cyflwr da a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Roedd y prosesau ar gyfer rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n effeithiol ac roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau a dihalogi hyd at y lefel gywir. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod o'r farn bod y practis yn 'lân iawn' a bod y staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau rheoliadol a statudol, ond roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chydymffurfiaeth staff â hyfforddiant cymorth cyntaf. Dywedodd pob claf wrthym fod y staff wedi cadarnhau ei hanes meddygol yn briodol cyn rhoi triniaeth. Roedd risgiau tân yn cael eu rheoli'n ddiogel, ac roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw i'r safon briodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant gloywi cymorth cyntaf ei gynnal bob blwyddyn
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn adlewyrchu'r asesiadau risg a'r triniaethau a roddir i'r claf yn gywir
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n gywir ac yn ddiogel
- Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli triniaethau radiograffig yn gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y strwythurau rheoli sydd ar waith yn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn gefnogol tuag at ei gilydd a thuag at y cleifion. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rolau a'u bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus yn codi pryderon ac yn trafod materion â'r rheolwyr. Roedd system foddhaol ar waith ar gyfer cofnodi adborth gan gleifion ac ymateb iddo. Nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chydymffurfio ag archwiliadau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau clinigol, fel y rhai hynny sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei bolisi a'i weithdrefn archwilio a gwella ansawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu a'i adolygu fel mater o drefn ac roedd y practis yn ymateb i'r adborth hwnnw.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob claf wrthym fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

“Cefais fy nhrin â'r lefel uchaf o barch ac urddas a chefais wybodaeth am iechyd fy ngheg. Cefais wybod pob dim am y driniaeth roedd ei hangen arna i. Rhagorol!”

“Ar ôl 20 mlynedd gyda'r practis hwn, byddwn yn ei argymhell i unrhyw un. Deintydd a staff o'r radd flaenaf.”

“Mae'r gwasanaeth yn y practis hwn yn rhagorol, ac wedi bod erioed. Diolch bawb.”

“Rwy'n falch iawn ar y gofal rwy'n ei gael a'r ffordd broffesiynol y mae'r staff yn ymdrin â mi. Maen nhw wedi gwneud mwy na digon i wneud i mi (claf nerfus) deimlo'n gartrefol ac i sicrhau fy mod yn gallu ymlacio cymaint â phosibl.”

“Croesawgar, cwrtais a phroffesiynol iawn. Ardderchog!”

“Rwy'n 50 oed, a dyma'r practis deintyddol gorau rwyf wedi bod iddo. Mae Jimmy yn llawn hiwmor ac arbenigedd ac yn rhoi gofal arbennig i'w gleifion.”

“Rwyf wedi bod yn dod i'r practis hwn ers i ni ymddeol yma yn 2011. Fwy na thebyg mai dyma'r driniaeth orau rwyf wedi'i chael erioed.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom wybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros i gleifion am iechyd deintyddol pediatrig, cyngor ar roi'r gorau i smygu ac amrywiaeth o daflenni cyngor i gleifion gan y GIG. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn glir am y ffioedd ar

gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat. Roedd enwau'r ymarferwyr, lluniau ohonynt a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd i'w gweld yn yr ardal aros i gleifion. Roedd codau moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ac roedd yr oriau agor a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld yn amlwg ar ddrws y ffrynt.

Dywedodd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall drwy gydol eu hapwyntiad. Dywedodd pob claf hefyd ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal addas ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd trefniadau boddhaol ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys gwydr barugog ar y ffenestri a drysau soled a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Roedd gan y practis ardal aros ar wahân i ddesg y dderbynfa, felly nid oedd modd i'r cleifion glywed galwadau ffôn â chleifion eraill. Dywedodd y staff wrthym y gellid cynnal trafodaethau sensitif â chleifion mewn ystafell ar wahân nad oedd yn ardal y dderbynfa pe byddai angen, er mwyn cynnig cyfrinachedd i'r cleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, eu bod wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod wedi ateb eu cwestiynau.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod prosesau cynllunio triniaethau ac opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion wedi cael gwybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth, a bod y staff wedi esbonio'r opsiynau a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision iddynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth (31/32). Dywedodd pob un ond un (31/32) a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe byddai ganddynt argyfwng neu haint.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod system briodol ar waith ar gyfer rheoli apwyntiadau a bod cleifion yn cael gofal amserol. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu dros y ffôn a gwelsom enghreifftiau o'r cleifion yn trefnu apwyntiadau â'r staff ar ôl eu triniaethau. Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu dros y ffôn drwy ymgynghori â'r ymarferwyr deintyddol, ac y byddai unrhyw gleifion brys yn cael eu gweld o fewn 24 awr.

Esboniodd y staff y byddai unrhyw achosion o oedi i apwyntiadau yn cael eu cyfleu i'r cleifion mewn modd amserol gan staff y dderbynfa, ac y byddai cleifion a oedd wedi aros mwy na 15 munud yn cael cynnig apwyntiad amgen.

Nododd y staff y gellid trefnu apwyntiadau cyffredin i gleifion o fewn un diwrnod gwaith fel arfer, pe gofynnwyd am hynny. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag anghenion cleifion ac argaeledd lle bynnag y bo'n bosibl.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi ei chael hi'n hawdd iawn (28/31) neu'n eithaf hawdd (3/31) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Gwelsom fod gwybodaeth am wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau yn cael ei harddangos yn addas y tu allan i'r practis ac ar wefan y practis. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion (25/31) a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn hwylus i gleifion yn Saesneg ond prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn Gymraeg. Gwelsom arwyddion yn y practis a oedd yn uniaith Saesneg, a phrin oedd y wybodaeth wrth ddesg y dderbynfa i annog y cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Nid oedd y staff yn gwisgo bathodynau 'laith Gwaith', gan esbonio mai'r rheswm am hynny oedd nad oedd unrhyw un yn y practis yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio'r Llinell Iaith i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. Cadarnhaodd y staff y gellid darparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith ar gais.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos dealltwriaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion. Fodd bynnag, esboniodd y staff eu bod wedi ei chael hi'n anodd cael cymorth gan y bwrdd iechyd i drefnu hyfforddiant Cymraeg ac i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu hamddiffyn ac roedd eu cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo drwy bolisi amrywiaeth cadarn a pholisi addas ar gyfer derbyn cleifion. Roedd poster yn dangos na fyddai unrhyw achos o ymddygiad sarhaus yn cael ei oddef i'w weld yn y dderbynfa ac roedd y safbwynt hwn wedi'i adlewyrchu ym mholisiau a gweithdrefnau'r practis.

Gwelsom fod rhestrau gwirio cynhwysfawr ar gyfer cyfarpar sgriniau arddangos gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion trawsryweddol yn cael cynnig dewis y rhagenwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnod, gan ddangos yr ymrwymiad i gynnal ansawdd a hawliau cleifion.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir a dywedodd y rhan fwyaf (31/32) ohonynt fod yr adeilad yn hygyrch. Nododd un ymatebydd nad oedd yn siŵr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd y practis mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd pedair deintyddfa fawr ar y llawr gwaelod, a oedd yn cynnwys deintyddfa fodern a oedd newydd ei hadeiladu. Roedd ystafell aros o faint addas ac roedd gwres, goleuadau, dulliau awyru ac arwyddion boddhaol ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom a chlywsom y llinellau ffôn yn gweithio a nodwyd gennym fod cyfleusterau newid a loceri ar gael i'r staff. Roedd y llawr gwaelod yn hygyrch i'r cleifion, gan gynnwys y deintyddfeydd a gwelsom ddau doiled i bobl anabl a oedd yn lân ac yn cynnwys cyfarpar priodol.

Gwelsom gyfarpar deintyddol aml dro a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol ac a oedd mewn cyflwr da, ac roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Gwnaethom edrych ar bolisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr yn ogystal â pholisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad a chynllun parhad busnes cadarn. Roedd asesiadau risg addas ar waith ar gyfer iechyd a diogelwch a diogelwch tân. Roedd y staff yn llofnodi rhestr wirio i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o bob polisi ac yn ei ddeall.

Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Roedd arwyddion diogelwch tân a dim smygu i'w gweld yn amlwg o amgylch y practis. Wrth edrych ar y cyfarpar a'r wybodaeth diogelwch tân, gwelsom fod trefniadau addas ar waith o ran diogelwch tân, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r cyfarpar tân yn rheolaidd ac arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd polisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau addas ar waith er mwyn sicrhau safonau uchel mewn perthynas â rheoli heintiau. Roedd amserlenni glanhau effeithiol ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd yn y practis. Gwelsom fod y cyfleusterau hylendid dwylo a'r arwyddion cysylltiedig yn briodol. Roedd digon o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff ac roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da er mwyn gallu ei lanhau'n effeithiol.

Dyweddod pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod o'r farn bod y practis yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn briodol gan y staff. Dyweddod un o'r cleifion:

“Gwnaeth cyflwr yr adeilad cyfan argraff dda iawn arna i. Roedd yn eithriadol o lân!”

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff er mwyn ymdrin ag anafiadau offer miniog a gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio er mwyn atal anafiadau. Roedd protocol addas ar waith ar gyfer anafiadau offer miniog.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir. Gwnaethom edrych ar y cofnodion o'r gwiriadau ar gylchredau'r peiriant awtoclaf ac amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd. Gwnaethom nodi bod argraffiadau yn cael eu diheintio'n ddiogel fel y bo'n briodol.

Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau a dihalogi cyfarpar. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau yn glir.

Gwelsom fod yr holl wastraff yn cael ei storio'n ddiogel a'i waredu'n briodol drwy gcontract gwaredu gwastraff addas. Nodwyd gennym fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol, ac roedd y manylion yn cael eu cadw gyda'i gilydd mewn ffolder COSHH gynhwysfawr.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio, eu rhoi a'u dosbarthu'n ddiogel ac yn effeithiol. Nid oedd meddyginiaethau yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Roeddent yn cael eu storio i'w defnyddio mewn argyfwng yn unig. Yn nodiadau'r cleifion, gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cofnodi'n glir. Roedd pad presgripsiwn y practis yn cael ei storio'n ddiogel.

Gwnaethom edrych ar y polisi ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer monitro dyddiadau defnyddio cyfarpar a meddyginiaethau brys. Roedd yr holl gyfarpar brys a chymorth cyntaf o fewn cyrraedd hawdd i'r staff ac roedd y dyddiadau defnyddio i gyd yn gyfredol.

Roedd y cofnodion hyfforddiant staff a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol ac roedd dau swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth bod y ddau swyddog cymorth cyntaf wedi cwblhau eu cymwysterau bob tair blynedd, ond bod dyddiadau eu hyfforddiant gloywi blynyddol wedi mynd heibio. Cafodd y risg i ddiogelwch uniongyrchol y cleifion ei lliniaru gan y ffaith bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd uwch a hyfforddiant i reoli argyfyngau meddygol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant gloywi cymorth cyntaf ei gynnal bob blwyddyn.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion. Roedd y polisi a'r gweithdrefnau yn cynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn nodi arweinydd diogelu penodedig ac yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth foddhaol o weithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol aml dro mewn cyflwr da a'i fod yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer ymdrin â chyfarpar deintyddol a'i ddiheintio mewn modd diogel. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r cyfarpar, ac roedd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt yn cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi cael eu cwblhau'n llawn. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos fod risgiau a manteision ymbelydredd yn cael eu hesbonio i gleifion, a lle y bo'n berthnasol i'w cysurwyr, a bod unrhyw gysylltiadau yn cael eu cofnodi'n briodol. Nodwyd gennym eu bod hi'n hawdd cael gafaél ar y rheolau lleol. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod triniaethau'n cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol a chan gydymffurfio â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol.

Cofnodion Cleifion

Gwnaethom adolygu cofnodion 10 claf i gyd a gwelsom fod y cofnodion clinigol yn cyrraedd safon foddhaol. Gwelsom fod polisi rheoli cofnodion priodol a system cofnodion digidol cadarn ar waith. Roedd pob cofnod yn cael ei storio'n unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cleifion cynhwysfawr a oedd yn cynnwys cadarnhau hanes y claf, y rhesymau dros yr apwyntiad a chydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer yr opsiynau triniaeth a ddarparwyd. Ategwyd hyn gan yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym yn holiadur AGIC. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd profion sgrinio ar gyfer canser y geg bob amser yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion ac nid oedd wyth o'r 10 cofnod a welsom yn cynnwys asesiadau risg mewn perthynas â cheudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hatgyfeirio, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i'w gweld bod yr atgyfeiriadau yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn adlewyrchu'r asesiadau risg a'r triniaethau a roddir i'r claf yn gywir.

Gwelsom hefyd nad oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd gweithdrefn brysbennu gadarn ar waith a oedd yn defnyddio'r slotiau a oedd yn cael eu creu pan fyddai apwyntiadau yn cael eu canslo i ddefnyddio amser y clinigwyr mewn ffordd effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn aelodau 'Arbenigol' o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain a gwelsom dystiolaeth fod adnodd datblygu tîm y Cynllun Arferion Da yn cael ei ddefnyddio. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y pynciau a oedd yn cael eu trafod yn cynnwys rheoli adnoddau, diogelwch tân a pholisïau'r GIG.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn cefnogi ei gilydd, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Cadarnhaodd y deintydd arwain a pherchennog y practis ei fod wedi cael cymorth a hyfforddiant addas i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd y practis yn cadw cofrestr o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn er mwyn rhoi canllawiau clir i'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ac yn diweddarau eu sgiliau mewn modd amserol. Yng nghofnodion staff pump aelod o staff allan o'r naw a welsom, gwelwyd cydymffurfiaeth lawn â'r holl gyrsiau hyfforddiant gorfodol a thystiolaeth o arfarniadau staff cyfredol a rheolaidd yn y ffeil. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu a gwelsom fod diwrnodau hyfforddiant yn cael eu cynnal yn rheolaidd i bob aelod o'r staff.

Roedd system rota effeithiol ar waith i sicrhau bod niferoedd priodol o staff â'r cymwysterau addas yn gweithio ar unrhyw un adeg. Gwelsom fod gweithdrefn sefydlu addas a systemau boddhaol ar waith i reoli'r defnydd o weithwyr asiantaeth.

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod cofnodion y staff yn cael eu diweddarau'n barhaus a bod gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cynnal. Roedd cofrestriadau proffesiynol pob aelod o'r staff yn gyfredol ac yn cael eu rheoli mewn ffordd addas gan reolwr y practis.

Roedd polisi chwythu'r chwiban cynhwysfawr ar waith a oedd yn disgrifio'r weithdrefn i'r staff godi pryderon. Cadarnhaodd y staff y byddent yn teimlo'n

hyderus yn codi pryder, y byddent yn teimlo y byddai'r rheolwyr yn eu cefnogi pe byddent yn gwneud hynny a gwnaethant esbonio'r broses y byddent yn ei dilyn.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom fod system foddhaol ar waith ar gyfer cyflwyno a rheoli adborth gan gleifion. Roedd blwch awgrymiadau yn y dderbynfa a gwelsom o gofnodion cyfarfodydd fod adborth yn cael ei drafod yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd hysbysfwrdd yn yr ardal aros yn nodi manylion ymateb y gwasanaeth i adborth gan gleifion ac yn amlinellu unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniadi hynny.

Roedd y polisi cwynion wedi'i arddangos yn glir yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol ohono. Nodwyd gennym fod cwynion gan gleifion yn cael eu rheoli'n unol â'r weithdrefn Gweithio i Wella, a gwelsom fod rheolwr y practis wedi'i enwi fel yr unigolyn y dylid cysylltu ag ef pe byddai claf yn awyddus i wneud cwyn. Er nad oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu, gwelsom fod ffolder cwynion foddhaol a ffurflenni cwyno drafft ar gael. Dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw gwynion a wnaed ar lafar yn cael eu cofnodi a'u cyflwyno i reolwr y practis eu hadolygu.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau cyfredol ac addas ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn deall eu rôl o dan y ddyletswydd, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i rannu pryderon â'r claf pan fyddai rhywbeth wedi mynd o'i le. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd yn ddiweddar.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod polisi ar waith ar gyfer archwiliadau clinigol a gweithgareddau gwella ansawdd parhaus ac roedd adolygiadau cymheiriaid rhwng aelodau o'r staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth i ddangos bod gweithgareddau archwilio rheolaidd yn cael eu cynnal mewn perthynas ag ansawdd triniaethau radiograffig, rhoi'r gorau i smygu, rhagnodi gwrthfotigau na chadw cofnodion. Gan fod cymaint o archwiliadau ar goll, awgrymwyd y dylai'r practis gynnal adolygiad o'i bolisi a'i weithdrefnau archwilio a gwella ansawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau clinigol, fel y rhai hynny sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei bolisi a'i weithdrefn archwilio a gwella ansawdd.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Amlinellodd y staff ddulliau addas o gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau iechyd eraill, gan gynnwys y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed i ddarparwyr gwasanaethau eraill. Esboniodd y staff fod ganddynt gydberthnasau gwaith da â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill ym Mhowys, gan gynnwys gwasanaethau meddygon teulu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Charro

Dyddiad yr arolygiad: 12 Rhagfyr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Charro

Dyddiad yr arolygiad: 12 Rhagfyr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn hwylus i gleifion yn Saesneg ond prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn Gymraeg. Gwelsom arwyddion yn y practis a oedd yn uniaith Saesneg, a phrin oedd y wybodaeth wrth ddesg y dderbynfa i annog y cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Nid oedd y staff yn gwisgo bathodynau 'laith Gwaith'.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (a)</p>	<p>Mae arwyddion Cymraeg newydd i'w gweld ym mhob rhan o'r practis. Anogwyd y staff i gymryd rhan mewn gwersi Cymraeg a ddarperir gan y bwrdd iechyd, ac i gyfarch y cleifion yn ddwyieithog.</p>	<p>Charlotte Allison</p>	<p>I'w roi ar waith erbyn 12/2/24</p>

<p>Gwelsom dystiolaeth bod y ddau swyddog cymorth cyntaf wedi cwblhau eu cymwysterau bob tair blynedd, ond bod dyddiadau eu hyfforddiant gloywi blynyddol wedi mynd heibio.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant gloywi cymorth cyntaf ei gynnal bob blwyddyn.</p>	<p>Adran 17</p>	<p>Caiff cyrsiau gloywi cymorth cyntaf eu cwblhau gan bob swyddog cymorth cyntaf ar unwaith, a bob blwyddyn wedi hynny.</p>	<p>Charlotte Allison</p>	<p>12/2/24</p>
<p>Nodwyd gennym nad oedd profion sgrinio ar gyfer canser y geg bob amser yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion ac nid oedd wyth o'r 10 cofnod a welsom yn cynnwys asesiadau risg mewn perthynas â cheudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg.</p> <p>Gwelsom fod cleifion yn cael eu hatgyfeirio, ond nid oedd unrhyw</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn adlewyrchu'r asesiadau risg a'r triniaethau a roddir i'r claf yn gywir.</p>	<p>Adran 20 (1)</p>	<p>Cafodd y wybodaeth hon ei chyfleu i bob un o'r clinigwyr, sy'n gyfrifol am eu nodiadau clinigol eu hunain, a chaiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal gan reolwr y practis o'r nodiadau clinigol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu asesiadau risg cywir ar gyfer triniaethau.</p>	<p>Charlotte Allison</p>	<p>31/3/24</p>

dystiolaeth i'w gweld bod yr atgyfeiriadau yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.					
Nid oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn.	Adran 13 (1) (a)	Gofynnir i gleifion ar ddechrau eu hapwyntiad (i nodi eu dewis iaith) a chaiff eu hateb ei gofnodi yn ffeil ffisegol a nodiadau clinigol y claf.	Charlotte Allison	31/3/24
Gwelsom fod polisi ar waith ar gyfer archwiliadau clinigol a gweithgareddau gwella ansawdd parhaus ac roedd adolygiadau cymheiriaid rhwng aelodau o'r staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth i ddangos bod gweithgareddau	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau clinigol, fel y rhai hynny sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei bolisi a'i weithdrefn archwilio a gwella ansawdd.	Adran 16 (1)	Bydd rheolwr y practis yn gyfrifol am yr archwiliadau clinigol, a bydd yn cynnal archwiliadau AaGIC ar unwaith. Caiff hyn ei adlewyrchu ym mholisi archwilio'r practis.	Charlotte Allison	30/4/24

archwilio rheolaidd yn cael eu cynnal mewn perthynas ag ansawdd triniaethau radiograffig, rhoi'r gorau i smygu, rhagnodi gwrthfotigau na chadw cofnodion. Gan fod cymaint o archwiliadau ar goll, awgrymwyd y dylai'r practis gynnal adolygiad o'i bolisi a'i weithdrefnau archwilio a gwella ansawdd.					
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Charlotte Allison

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 7/2/24